# Cyfrifiad 2021

Lluoedd Arfog

Papur Pwnc

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru • Love Ceredigion

# CANLYNIADAU ALLWEDDOL

## 4.1%

(2,525 person)
o breswylwyr arferol 16 mlwydd oed a drosodd wedi gwasanaethu yn **Lluoedd Arfog y DU** yn flaenorol

## 5.4%

(140 person)
wedi gwasanaethu yn y **lluoedd rheolaidd a'r lluoedd wrth gefn** yn flaenorol

## 78.3%

(1,850 person)
wedi gwasanaethu yn y **lluoedd rheolaidd** yn flaenorol

## 21.3%

(540 person)
wedi gwasanaethu yn y **lluoedd wrth gefn** yn flaenorol

## *Ward Etholiadol* Aberporth & Y Ferwig

oedd efo'r **canran uchaf** o'i poblogaeth sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU yn flaenorol.
(6.7% / 190 person)

## *AGEHG* Aberteifi & Aberporth

oedd efo'r **canran uchaf** o'i poblogaeth sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU yn flaenorol.
(5.1% / 440 person)

## 2,380

aelwyd yng Ngheredigion efo o leiaf un person sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU yn flaenorol

## 2,260

(95.3%)
aelwyd gyda **un cynfilwyr** yn unig

# Tabl Cynnwys

1.0 Cefndir ..... 3
2.0 Darganfyddiadau ..... 3
2.1 Cymru ..... 3
2.2 Ceredigion ..... 6
2.2.1 Poblogaeth Cyn-filwyr ..... 6
2.2.2 Rhyw ac Oedran ..... 8
2.2.3 Iechyd Cyffredinol ..... 11
2.2.4 Anabledd ..... 12
2.2.5 Daliadaeth ..... 13
2.2.6 Gweithgaredd Economaidd ..... 14
2.2.7 Galwedigaeth ..... 15
2.2.8 Poblogaeth y Lluoedd Arfog yn ôl Ward ..... 15
2.2.9 Poblogaeth y Lluoedd Arfog yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (AGEHG) ..... 17
3.0 Casgliad ..... 18
Rhestr o Ffigurau: ..... 20
Rhestr o Dablau: ..... 20
Rhestr o Gyfeirnodau: ..... 21

## 1.0 Cefndir

Nid oedd gwybodaeth am gymuned y Lluoedd Arfog yn cael ei chasglu yn y Cyfrifiad yn flaenorol, ar wahân i nodi galwedigaeth y rheiny a oedd yn gwasanaethu ar y pryd hwnnw. Ers Cyfrifiad 2011 mae'r angen wedi tyfu am wybodaeth am y rheiny a fu'n gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn y gorffennol, a'u teuluoedd.

Cyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr, a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2021, oedd yr un cyntaf i ofyn i bobl a oeddent wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn y gorffennol. Gofynnwyd i bobl 16 mlwydd oed neu hŷn a oeddent wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog rheolaidd y DU neu yn y lluoedd wrth gefn, neu'r ddau. Roedd pobl a oedd yn gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU ar y pryd, a phobl nad oeddent erioed wedi gwasanaethu, wedi cael eu cynghori i ddewis "nac ydw".

Mae data'r cyfrifiad yn gwella'n sylweddol ein dealltwriaeth o gymuned y lluoedd arfog. Mae'n bwysig deall ymhle mae cyn-filwyr yn byw oherwydd mae'n galluogi'r awdurdod lleol a'r gymuned leol i gefnogi pobl a fu'n arfer gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU. Defnyddir y wybodaeth hon gan yr awdurdod lleol i gyflawni ymrwymiadau a wneir o dan Gyfamod y Lluoedd Arfog. Addewid gan y genedl yw hwn i wneud yn siŵr nad yw'r rhai sydd yn gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU, a'u teuluoedd, o dan anfantais oherwydd y gwasanaeth yma.

Mae'r papur pwnc hwn yn rhoi gwybodaeth am gymuned cyn-filwyr y lluoedd arfog yn dilyn Cyfrifiad 2021. Nodir y wybodaeth yn ôl poblogaeth ac aelwyd ar gyfer Cymru, Ceredigion ac ar gyfer ardaloedd daearyddol llai megis Ardaloedd Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (AGEHG) a Wardiau Etholiadol.

Mae'r papur pwnc hwn ym edrych ar tri grŵp poblogaeth gwahanol sydd wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn flaenorol (cyn-filwyr):

- y rhai sydd wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog rheolaidd y DU,
- y rhai sydd wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog wrth gefn y DU ac
- y rhai sydd wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog rheolaidd ac wrth gefn y DU.

Mae'r poblogaeth cyn-filwyr yn cyfeirio at breswylwyr arferol oed 16 mlwydd a throsodd sydd wedi gwasanaethu yn flaenorol am isafswm o un diwrnod yn lluoedd arfog y DU. Mae'r boblogaeth nad ydynt yn gyn-filwyr yn cyfeirio at drigolion arferol dros 16 oed sydd heb wasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn y gorffennol, neu sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd.

## 2.0 Darganfyddiadau

### 2.1 Cymru

Ar 21 Mawrth 2021, dywedodd 4.5% o boblogaeth Cymru eu bod wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn y gorffennol, sy'n cyfateb i 115,000 o drigolion 16 mlwydd oed neu hŷn. Mae hyn yn gyfwerth â bron i 1 o bob 22 person 16 mlwydd oed neu hŷn yng Nghymru. Fel y gwelir yn Ffigur 1 drosodd, roedd y ganran o gyn-aelodau o luoedd arfog y DU yn uwch yng Nghymru nag yr oedd yn Lloegr (3.8%, 1.7

miliwn).

Ffigur 1: Canran o’r poblogaeth 16 mlwydd oed a throsodd sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU yn flaenorol.





*(Ffynhonnell: SYG (2022): 2021 Cyfrifiad)*[1]

Ledled Cymru, mae’r ganran o’r boblogaeth 16 mlwydd oed a hŷn a oedd wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn amrywio ychydig rhwng awdurdodau lleol. Yr awdurdod lleol yng Nghymru â’r ganran uchaf o gyn-filwyr oedd Conwy (5.9%, 6,000 o bobl). Caerdydd oedd yr awdurdod lleol â’r ganran leiaf o gyn-filwyr (sef 2.9% o’r boblogaeth, 8,590 o bobl) (gweler Ffigur 2 drosodd). Mae’r data’n dangos fod yr awdurdodau lleol sydd â'r cyfrannau uchaf o gyn-filwyr yn tueddu i fod yn ardaloedd lle mae sefydliadau milwrol yn bod eisoes. Mae hyn yn awgrymu fod cyn-filwyr, ar y cyfan, yn tueddu i aros yn yr un ardal ar ôl iddynt adael y gwasanaeth.

[1] SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – TS071 Bu'n gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn flaenorol. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2088&geog=ladu2021

Ffigur 2: Canran o'r pobl sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU yn flaenorol, yn ôl Awdurdodau Lleol Cymru.





*(Ffynhonnell: SYG (2022): 2021 Cyfrifiad)*[2]

Fel y gwelir yn Ffigur 3 isod, o blith poblogaeth cyn-aelodau o luoedd arfog y DU yng Nghymru (115,000), roedd 76.4% (88,000 o bobl) wedi gwasanaethu yn y lluoedd rheolaidd, 19.3% (22,000 o bobl) wedi gwasanaethu yn y lluoedd wrth gefn, a 4.5% (5,000 o bobl) wedi dweud eu bod wedi gwasanaethu yn y lluoedd rheolaidd a'r lluoedd wrth gefn.

[2] SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – TS071 Bu'n gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn flaenorol. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2088&geog=ladu2021

Ffigur 3: Canran o cyn-filwyr yn ôl fyddin ar draws Cymru.




*(Ffynhonnell: SYG 2022: 2021 Cyfrifiad)*[3]

## 2.2 Ceredigion


### 2.2.1 Poblogaeth Cyn-filwyr

Yn 2021 dywedodd 2,525 o bobl Ceredigion eu bod wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn y gorffennol (4.1% o'r trigolion arferol dros 16 mlwydd oed). Mae hyn yn cyfateb i 1 ym mhob 24 person dros 16 mlwydd oed sydd wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn y gorffennol. Mae hyn ychydig yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol (4.5% o'r boblogaeth 16 mlwydd oed a hŷn, sef 115,000 o bobl), ond mwy na'r cyfartaledd yn Lloegr yn Lloegr (3.8%, sef 1.7 miliwn o bobl). Ledled Cymru, Ceredigion oedd yr awdurdod lleol â'r ganran bumed leiaf o gyn-filwyr, yn gydradd â Rhondda Cynon Taf ac Abertawe.

O blith poblogaeth cyn-filwyr y DU yng Ngheredigion, roedd ychydig llai na thri chwarter (73.3% / 1,850 o bobl) wedi gwasanaethu yn y lluoedd rheolaidd, roedd llai na chwarter (21.3% / 540 o bobl) wedi nodi eu bod wedi gwasanaethu yn y lluoedd wrth gefn ac roedd y 5.4% a oedd yn weddill (140 o bobl) wedi gwasanaethu yn y lluoedd rheolaidd ac wrth gefn (gweler Ffigur 4 isod). Mae'r cyfrannau hyn o gyn-filwyr yn debyg i'r ffigurau cenedlaethol, fel y gwelir yn Ffigur 3 uchod.

[3] SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – TS071 Bu'n gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn flaenorol. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2088&geog=ladu2021


Ffigur 4: Canran o'r cyn-filwyr yng Ngheredigion sydd wedi gwasanaethu yn y gwasanaeth lluoedd arfog rheolaidd, wrth gefn neu'r ddau.




*(Ffynhonnell: SYG 2022: 2021 Cyfrifiad)*[4]

O blith poblogaeth cyn-filwyr y DU yng Ngheredigion, roedd 98.3% (2,480) yn byw mewn aelwydydd ac roedd 1.7% (40) yn byw mewn sefydliadau cymunedol *(mae sefydliadau cymunedol yn cynnwys cartrefi gofal preswyl, neuaddau preswyl prifysgolion, ysgolion preswyl a charchardai).*

Ffigur 5: Canran o cyn-filwyr y lluoedd Arfog sydd yn byw mewn aelwydydd neu sefydliadau cymunedol.




*(Ffynhonnell: SYG 2022: 2021 Cyfrifiad)*[5]


---

[4] SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – TS071 Bu'n gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn flaenorol. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2088&geog=ladu2021

[5] SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – TS073 Poblogaeth sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol yn lluoedd arfog y DU mewn

Defnyddiodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yr atebion i'r cwestiwn hwn hefyd i gyfrifo nifer yr aelwydydd a oedd yn cynnwys un neu fwy o gyn-filwyr. Yn 2021, roedd gan 2,370 o aelwydydd Ceredigion o leiaf un person a oedd wedi gwasanaethu o'r blaen yn lluoedd arfog y DU (7.7% o'r holl aelwydydd yng Ngheredigion). Mae hyn ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (8.1% / 108,699 o holl aelwydydd Cymru).

Ffigur 6: Canran yr aelwydydd gyda o leiaf un person sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU yn flaenorol.




*(Ffynhonnell: SYG 2022: 2021 Cyfrifiad)*[6]

Roedd mwyafrif yr aelwydydd yng Ngheredigion yn cynnwys un cyn-filwr yn unig (2,260 o gartrefi), sy'n cyfateb i 95.3% o'r holl aelwydydd a oedd ag o leiaf un cyn-filwr. Roedd tua 100 o aelwydydd (4.5%) yn cynnwys dau gyn-filwr, ac roedd y pum aelwyd arall yn cynnwys tri neu fwy o gyn-filwyr.

### 2.2.2 Rhyw ac Oedran

Mae data Cyfrifiad 2021 yn rhoi gwybodaeth am ryw ac oedran trigolion Ceredigion sydd wedi gwasanaethu o'r blaen yn lluoedd arfog y DU.

Roedd strwythur oedran a rhyw y cyn-filwyr yn amrywio'n sylweddol o gymharu â'r boblogaeth nad oedd yn gyn-filwyr, gyda phoblogaeth y cyn-filwyr yn llawer hŷn ac yn ddynion gan mwyaf. O blith cyfanswm y cyn-filwyr yng Ngheredigion, roedd 85% (2,159) yn ddynion (o gymharu â 48% o'r boblogaeth nad oedd yn gyn-filwyr) ac roedd 15% yn fenywod (o gymharu â 52% o'r boblogaeth nad oedd yn gyn-filwyr). Roedd dros hanner (68%, 1,710) o boblogaeth y cyn-filwyr dros 60 oed (o gymharu â 32% o'r boblogaeth nad oedd yn gyn-filwyr). Nid yw hyn yn syndod o ystyried dylanwad


sefydliadau cymunedol ac mewn cartrefi. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2090&geog=ladu2021

[6] SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – Nifer y bobl yn y cartref sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol yn lluoedd arfog y DU. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2089&geog=ladu2021

Gwasanaeth y Rhyfel (1939 hyd 1948) a Gwasanaeth Milwrol (1939 hyd 1960, gyda'r rhai olaf yn cael eu rhyddhau o'r gwasanaeth yn 1963). At hynny, wrth i'r personél sy'n gwasanaethu gyrraedd oedran ymddeol, maen nhw'n tueddu i adael y lluoedd a dod yn gyn-filwyr. Wrth gwrs, mae yna resymau eraill gan bobl dros adael y lluoedd arfog a dod yn gyn-filwyr, megis anabledd neu broblemau iechyd sy'n eu hatal rhag parhau, neu yn syml eu bod yn penderfynu dilyn gyrfa arall neu ffordd arall o fyw.

Mae Ffigur 7 isod yn amlinellu strwythur oedran a rhyw y cyn-filwyr a'r boblogaeth sydd ddim yn gyn-filwyr yng Ngheredigion yn 2021.

Ffigur 7: Strwythur rhywedd ac oedran cyn-filwyr a'r rhai sydd ddim yn gyn-filwyr yng Ngheredigion (2021).





*(Ffynhonnell: SYG (2023): 2021 Cyfrifiad)*[7]

Mae Ffigur 8 drosodd yn arddangos oedrannau cyn-filwyr Ceredigion yn ôl y math o wasanaeth a wnaed (lluoedd arfog rheolaidd, y lluoedd arfog wrth gefn, neu'r ddau). *Dylid nodi mai dim ond y rheiny 16 oed a hŷn oedd â'r hawl i ateb y cwestiwn hwn ac felly nid oes categori oedran ar gyfer y rhai oedd yn iau nag 16 oed.*

[7] SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – RM147 Cyn-filwyr yn ôl oedran. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2247&geog=ladu2021

Ffigur 8: Canran o’r cyn-filwyr yng Ngheredigion yn ôl grwp oedran sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog rheolaidd, wrth gefn neu’r ddau.




*(Ffynhonnell: SYG (2023): 2021 Cyfrifiad)*[8]

Fel yr adlewyrchir yn Ffigur 8 uchod, roedd poblogaeth y cyn-filwyr rheolaidd ac wrth gefn yng Ngheredigion yn amrywio o ran oedran, sy'n debyg i'r darlun cenedlaethol. Ar y cyfan, roedd poblogaeth y rhai a oedd ond wedi gwasanaethu yn y lluoedd wrth gefn yn iau na gweddill poblogaeth y cyn-filwyr, tra bod y boblogaeth a oedd wedi gwasanaethu yn y lluoedd wrth gefn a’r lluoedd rheolaidd yn hŷn. Ymhlith y rhai a oedd wedi gwasanaethu yn y gorffennol yn y lluoedd arfog wrth gefn yn unig, roedd 44% yn 65 oed ac yn hŷn, o gymharu â 61% o gyn-filwyr yn y lluoedd arfog rheolaidd a 67% o'r rhai a oedd wedi gwasanaethu yn y lluoedd rheolaidd ac wrth gefn. Fel y cyfeiriwyd ato gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023) , gall y patrwm oedran yma adlewyrchu’r ffaith fod unigolion yn gallu gadael y lluoedd wrth gefn ar unrhyw adeg (oni bai eu bod wedi ymfyddino) a gall y rheiny sydd heb wasanaethu fel milwr rheolaidd ynghynt ymuno fel milwr gwirfoddol wrth gefn tra byddant yn gweithio’n llawn-amser rywle arall.

[8] SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – RM147 Cyn-filwyr yn ôl oedran. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2247&geog=ladu2021

Gan mai Cyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr oedd yr un cyntaf i ofyn i bobl a oeddent wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn y gorffennol, nid oes modd cymharu gyda blynyddoedd blaenorol y Cyfrifiad. Serch hynny, roedd Cyfrifiad 2021 wedi casglu data ar nifer y cyn-filwyr o oedran gweithio (rhwng 16 a 64 oed) yng Nghymru a Lloegr. Yng Ngheredigion amcangyfrifwyd bod 870 o bobl yn gyn-filwyr oedran gweithio yng Nghyfrifiad 2011. Roedd hyn yn gyfystyr â 2.0% o'r boblogaeth 16 i 64 oed yn y Sir ac roedd yn union yr un fath â'r ganran genedlaethol (2.0%).

Mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn awgrymu y gallai nifer y cyn-filwyr oedran gweithio (rhwng 16 a 64 oed) fod wedi cynyddu ers Cyfrifiad 2011. Yn ôl Cyfrifiad 2021 roedd 1,069 o gyn-filwyr rhwng 16 a 64 oed, sef cynnydd o 22.8% ers 2011. Mae'r cyn-filwyr oedran gweithio a gofnodwyd yn 2021 (1,069) yn cyfrif am 2.5% o'r boblogaeth gyfan 16 i 64 oed yng Ngheredigion, sy'n uwch na chyfran y cyn-filwyr rhwng 16 a 64 oed yn 2011. Fodd bynnag, yn 2021 roedd canran y cyn-filwyr oedran gweithio (2.5%) yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (3.0%).


### 2.2.3 Iechyd Cyffredinol

Roedd cyn-filwyr yng Ngheredigion yn riportio iechyd gwaeth yn gyffredinol o gymharu â'r rheiny nad oedd erioed wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU (gweler Ffigur 9 drosodd). Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio fod poblogaeth y cyn-filwyr yn hŷn o lawer na'r boblogaeth sydd heb wasanaethu, a hefyd yn ddynion yn bennaf. Gallai hyn gael effaith ar asesiad person gan fod iechyd fel arfer yn gysylltiedig ag oedran, ac mewn rhai achosion yn gysylltiedig â rhyw.

Ledled y mathau o wasanaeth, y ganran fwyaf o gyn-filwyr a nododd nad oeddent 'mewn iechyd da' oedd y rhai a oedd wedi gwasanaethu o'r blaen yn y lluoedd arfog rheolaidd yn ogystal â'r rhai wrth gefn (51.5%). Mae hyn yn cymharu â llai na hanner (40.9%) cyn-filwyr lluoedd arfog rheolaidd y DU ac ychydig dros draean (34.1%) cyn-filwyr y lluoedd arfog wrth gefn a ddywedodd nad oeddent 'mewn iechyd da'. Fodd bynnag, roedd 42.1% o gyn-filwyr (waeth beth oedd y math o wasanaeth a wnaed) wedi riportio nad oeddent mewn iechyd da, sy'n ffigwr gwaeth na'r boblogaeth nad oedd yn gyn-filwyr yng Ngheredigion (23.7%).

Yn genedlaethol, roedd iechyd cyffredinol cyn-filwyr yn 2021 ychydig yn well nag iechyd cyn-filwyr yng Ngheredigion, gyda 62.5% o'r holl gyn-filwyr yn dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn 'dda' ledled Cymru, o gymharu â 60.0% yng Ngheredigion. Priodolir y gwahaniaeth hwn yn bennaf i'r cyfran uwch o gyn-filwyr a oedd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog rheolaidd ac wrth gefn a oedd wedi riportio iechyd gwaeth yng Ngheredigion (51.5%) o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol (39.9%), sy'n wahaniaeth o 11.6 pwynt canran rhwng ffigwr yr awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Ffigur 9: Iechyd cyffredinol hunan-gofnodedig cyn-filwyr a phobl nad ydynt yn gyn-filwyr yng Ngheredigion (2021).




*(Ffynhonnell: SYG (2023): 2021 Cyfrifiad)*[9]

## 2.2.4 Anabledd

Yng Ngheredigion, mae 37.5% (695) o gyn-filwyr lluoedd arfog rheolaidd y DU yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae hyn 1.9 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru sef 35.6%. Mae tua 30.0% o gyn-filwyr lluoedd arfog wrth gefn y DU yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, gyda chyfartaledd Cymru ychydig yn uwch (30.4%). Yng Ngheredigion, mae canran y rhai sy'n anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ac sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog rheolaidd ac wrth gefn (45.3%) yn uwch o lawer (8 pwynt canran) na chyfartaledd Cymru o 37.3%.


Mae'n llawer mwy cyffredin i gyn-filwr sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog rheolaidd neu wrth gefn, neu'r naill lu a’r llall, fod yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb o gymharu â'r rheiny nad ydynt wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog o'r blaen. Y rheswm am hyn yw bod y rhai sy'n gwasanaethu gyda'r lluoedd arfog yn gallu cael eu hanafu wrth wasanaethu. Mae'r anafiadau hyn yn gallu arwain at anableddau sy'n cyfyngu ar fywyd. Mae ychydig llai na chwarter (24.1%) o'r rhai sydd heb wasanaethu yn y lluoedd arfog yng Ngheredigion yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, sy'n is na'r ganran ar gyfer cyn-filwyr.

[9] SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – RM145 Cyn-filwyr yn ôl iechyd cyffredinol. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2245&geog=ladu2021

## 2.2.5 Daliadaeth

Fel y gwelir yn Ffigur 10 isod, mae aelwyd sydd â chyn-filwyr ynddi yn fwy tebygol o fod yn berchen ar y cartref o gymharu ag aelwydydd sydd heb gyn-filwyr.  Mae aelwydydd sydd â dau neu fwy o gyn-filwyr yn fwy tebygol o fod yn berchen ar eu cartref (93.6%), gyda 67.0% yn berchen ar eu cartref yn llwyr ac ychydig dros chwarter (26.6%) yn berchen ar eu cartref gyda morgais, benthyciad neu ranberchenogaeth. Yn yr un modd, mewn aelwydydd sydd ag un person sydd wedi gwasanaethu o'r blaen yn lluoedd arfog y DU, mae dros draean (77.7%) yn berchen ar eu cartref; mae dros hanner (59.0%) yn berchen ar eu cartref yn llwyr a 18.7% yn berchen ar eu cartref eu hunain gyda morgais, benthyciad neu ran-berchnogaeth. Mae'r ffigurau hyn lawer yn uwch nag aelwydydd sydd heb gyn-filwyr. Mae llai na hanner (47.0%) o'r rheiny yn berchen ar eu cartref yn llwyr a 21.1% yn berchen ar eu cartref gyda morgais, benthyciad neu ranberchenogaeth.

Ffigur 10: Canran o cyn-filwyr y Lluoedd Arfog yn ôl Daliadaeth.




*(Ffynhonnell: SYG (2023): 2021 Cyfrifiad)*[10]

O ran rhentu, mae aelwydydd heb gyn-filwyr yn fwy tebygol o fod yn rhentu (preifat a chymdeithasol) nag aelwydydd sydd â chyn-filwyr yn bresennol. At ei gilydd, mae ychydig llai na thraean o aelwydydd sydd heb gyn-filwyr (31.9%) yn rhentu, gyda 10.6% ohonynt o fewn y sector rhentu cymdeithasol a 21.3% o fewn y sector rhentu preifat. O'r aelwydydd sydd ag un person sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog o'r blaen, mae tua un o bob pump (22.3%) yn rhentu, gyda 9.0% o'r aelwydydd yn y sector rhentu cymdeithasol ac 13.3% yn y sector rhentu preifat. Dim ond 6.5% o'r aelwydydd sydd â dau neu fwy o

[10] SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – RM142 Aelwydydd cyn-filwyr yn ôl deiliadaeth. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2242&geog=ladu2021

gyn-filwyr sy'n rhentu, ac mae 2.8% yn rhentu o fewn y sector rhentu cymdeithasol a 3.7% yn rhentu o fewn y sector rhentu preifat.

### 2.2.6 Gweithgaredd Economaidd


Roedd Cyfrifiad 2021 wedi casglu gwybodaeth ar gyn-filwyr yn ôl statws eu gweithgarwch economaidd. Mae mwyafrif y cyn-filwyr yn economaidd anweithgar[11], sydd ddim yn annisgwyl o ystyried y gallent fod wedi gadael y lluoedd arfog o achos salwch neu er mwyn ymddeol.

Mae'r darlun cenedlaethol yn weddol debyg i'r sefyllfa yng Ngheredigion, ond mae yna fwy o gyn-filwyr economaidd weithgar[12] yng Nghymru gyfan. Yn 2021 roedd dwy ran o dair (64.7%/ 1,635) o gyn-filwyr y lluoedd arfog yn economaidd anweithgar yng Ngheredigion o gymharu â 56.9% o gyn-filwyr y lluoedd arfog ledled Cymru.

At hynny, mae anweithgarwch economaidd yn amrywio yn ôl y math o wasanaeth a wnaed yn lluoedd arfog y DU.

Fel y dangosir yn Ffigur 11 isod, y rhai sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol yn lluoedd arfog rheolaidd y DU sydd fwyaf tebygol o fod yn economaidd anweithgar (67.7%). Cyn-filwyr y lluoedd wrth gefn sydd leiaf tebygol o fod yn economaidd anweithgar (54.0%). Er mai cyfran y cyn-filwyr wrth gefn sy'n economaidd anweithgar yw'r un isaf o blith y math o wasanaeth, mae ond ychydig yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer y gwasanaethau i gyd (56.9%).

Ffigur 11: Statws Economaidd Cyn-filwyr – Ceredigion.




*(Ffynhonnell: SYG (2023): 2021 Cyfrifiad)*[13]

[11] Economaidd anweithgar: person sydd ddim yn cael ei gyflogi nac yn ddi-waith. Mae hyn am fod y person wedi ymddeol, yn edrych ar ôl teulu neu'r cartref, neu'n fyfyriwr, ymysg rhesymau eraill.
[12] Economaidd weithgar: person sydd mewn cyflogaeth (gweithwyr a'r hunangyflogedig) neu'n ddi-waith.
[13] SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – RM144 Cyn-filwyr yn ôl statws gweithgaredd economaidd. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2244&geog=ladu2021

### 2.2.7 Galwedigaeth

Mae Tabl 1 isod yn dangos tair prif alwedigaeth cyn-filwyr yn ôl y math o wasanaeth a wnaed. Mae tebygrwydd yn y galwedigaethau ar draws y math o wasanaeth, ac mae galwedigaethau â chrefftau medrus a galwedigaethau proffesiynol yn ymddangos yn y tri uchaf, ond mae'r safle'n amrywio ychydig.

Galwedigaethau â chrefftau medrus yw'r rhai mwyaf poblogaidd (19.3%) ymysg y rhai fu'n gwasanaethu yn lluoedd arfog rheolaidd y DU ac ar gyfer y rhai fu'n gwasanaethu yn lluoedd arfog wrth gefn y DU (21.3%). Yr alwedigaeth fwyaf cyffredin ymhlith y rhai fu'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog rheolaidd ac wrth gefn y DU yw gweithredwyr prosesau, peirianwaith a pheiriannau (28.3%). Mae galwedigaethau proffesiynol hefyd yn gyffredin yng nghymuned y Lluoedd Arfog fel yr alwedigaeth ail neu drydedd fwyaf poblogaidd.

Tabl 1: Prif 3 Galwedigaeth i cyn-filwyr yn ôl Fyddin.

| | Wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog rheolaidd y DU yn flaenorol | | Wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog wrth gefn y DU yn flaenorol | | Wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog rheolaidd ac wrth gefn y DU yn flaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Galwedigaethau crefftau medrus | 19.3% | Galwedigaethau crefftau medrus | 21.3% | Gweithredwyr prosesau, peiriannau a pheiriannau | 28.3% |
| 2 | Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiedig | 14.6% | Galwedigaethau proffesiynol | 16.6% | Galwedigaethau crefftau medrus | 17.4% |
| 3 | Galwedigaethau proffesiynol | 14.4% | Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion | 12.3% | Galwedigaethau proffesiynol | 13.0% |

*(Ffynhonnell: SYG (2023): 2021 Cyfrifiad)*[14]

### 2.2.8 Poblogaeth y Lluoedd Arfog yn ôl Ward

Mae data ar y cyn-filwyr yng Ngheredigion ar gael ar lefel wardiau etholiadol. Dyma'r lefel isaf o ddata sydd ar gael ar y pwnc hwn. Mae cyfanswm o 34 o wardiau etholiadol yng Ngheredigion. Mae wardiau etholiadol yn amrywio o ran eu maint, yn ddaearyddol ac yn boblogaethol. 5,154 o drigolion yw'r boblogaeth fwyaf (ward etholiadol Aberystwyth Morfa a Glais) a 1,133 o drigolion yw'r boblogaeth leiaf (ward etholiadol Penbryn).


O ran cyn-filwyr, ward etholiadol Aberporth a'r Ferwig yw'r un gyda'r boblogaeth fwyaf o bobl sydd wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU o'r blaen. Yn ward etholiadol Aberporth a'r Ferwig, mae

[14] SYG (2022). Cyfrifiad 2021 -RM146 Cyn-filwyr yn ôl galwedigaeth. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2246&geog=ladu2021

6.7% o'r boblogaeth wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU o'r blaen, sy'n cyfateb i 190 o drigolion. Yn ail i hon y mae ward etholiadol Mwldan (sydd wedi'i lleoli yn Aberteifi) lle mae 6.5% o'r boblogaeth wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU o'r blaen, sy'n cyfateb i 101 o drigolion. O ystyried y ganolfan filwrol bresennol yn Aberporth (canolfan y Weinyddiaeth Amddiffyn, MOD Aberporth) a hanes y lluoedd arfog yng nghymunedau Aberteifi ac Aberporth, mae'r gyfran uwch o gyn-filwyr i'w ddisgwyl yn yr ardaloedd hyn. Mae hyn yn awgrymu, ar y cyfan, fod cyn-filwyr yn tueddu i aros yn yr un ardal ar ôl iddynt adael y gwasanaeth.

Y ddwy ward etholiadol sydd â'r ganran isaf o gyn-filwyr yn trigo ynddynt yw ward etholiadol Aberystwyth Morfa a Glais (2.1%) a ward etholiadol y Faenor (2.2%).

Ffigur 12: Canran o Cyn-filwyr yn ôl Ward Etholiadol.




*(Ffynhonnell: SYG (2023): 2021 Cyfrifiad)*[15]

[15] SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – TS071 Bu'n gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn flaenorol. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2088&geog=ladu2021


## 2.2.9 Poblogaeth y Lluoedd Arfog yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (AGEHG)

Yn ogystal, casglodd Cyfrifiad 2021 ddata ar gyn-filwyr yn ôl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA). Mae'r ardaloedd hyn yn fwy na wardiau etholiadol (y cyfeiriwyd atynt uchod) ac maent yn cynnwys rhwng 5,000 a 15,000 o drigolion. Mae Ceredigion yn cynnwys 9 MSOA.

Yn 2021, dywedodd 440 o bobl yn MSOA Aberteifi ac Aberporth eu bod wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU o'r blaen (5.1% o'r boblogaeth 16 oed a hŷn). Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Ceredigion (4.1%) a'r cyfartaledd cenedlaethol (4.5%).

MSOA Gogledd Aberystwyth sydd â'r ganran isaf o bobl a fu'n gwasanaethu o'r blaen yn lluoedd arfog y DU, sef ond 1.8% o'r boblogaeth. Nid yw'n syndod gweld y ganran hon yng Ngogledd Aberystwyth o ystyried fod mwyafrif helaeth y boblogaeth yma yn fyfyrwyr sy'n astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Ffigur 13: Canran o cyn-filwyr y Lluoedd Arfog yn ôl AGEHG.




*(Ffynhonnell: SYG (2023): 2021 Cyfrifiad)*[16]

Mae Tabl 2 drosodd yn dangos nifer y bobl mewn aelwydydd lle bu'r trigolion yn gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU, yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol. Mae canran uchaf yr aelwydydd lle bu o leiaf un person yn gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU i'w gweld ym MSOA Aberteifi ac Aberporth

[16] SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – TS071 Bu'n gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn flaenorol. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2088&geog=ladu2021

(9.3%), sydd ddim yn syndod pan ystyriwn mai'r MSOA hwn sydd â'r ganran uchaf o gyn-filwyr y lluoedd arfog ymysg ei phoblogaeth.

Mae cyfran uchaf yr aelwydydd sydd â 2 berson a arferai wasanaethu yn lluoedd arfog y DU i'w gweld ym MSOA Aberteifi ac Aberporth (0.6%), gyda MSOA Ceinewydd a Phenbryn yn ail agos iawn (0.5%).

Tabl 2: Canran o'r pobl yn aelwydydd sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU yn flaenorol.

| AGEHG | 1 Person | 2 Person | 3 person neu fwy |
|---|---|---|---|
| Borth & Bont-goch | 6.8% (220) | 0.4% (14) | 0.0% (0) |
| Gogledd Aberystwyth | 4.8% (142) | 0.1% (4) | 0.0% (1) |
| De Aberystwyth | 6.6% (180) | 0.2% (5) | 0.0% (0) |
| Aberaeron & Llanrhystud | 8.0% (260) | 0.3% (10) | 0.0% (0) |
| Cei Newydd & Penbryn | 8.7% (248) | 0.5% (14) | 0.0% (1) |
| Llanbedr Pont Steffan & Llanfihangel Ystrad | 7.2% (241) | 0.4% (12) | 0.0% (0) |
| Aberteifi & Aberporth | 9.3% (387) | 0.6% (23) | 0.0% (0) |
| Beulah, Troed-yr-aur & Llandysul | 7.9% (266) | 0.4% (12) | 0.0% (0) |
| Rheidol, Ystwyth & Caron | 6.3% (314) | 0.2% (12) | 0.0% (0) |

*(Ffynhonnell: SYG (2023): 2021 Cyfrifiad)*[17]

## 3.0 Casgliad

Mae Cyfrifiad 2021 yn gwella ein dealltwriaeth - ac mae angen gwneud hynny - o gymuned y lluoedd arfog yng Ngheredigion a Chymru gyfan. Mae'r data'n rhoi cipolwg ar ddemograffeg y cyn-filwyr ac yn tynnu sylw at y ffaith fod y rhan fwyaf o'n cyn-filwyr yn ddynion a hefyd dros 60 oed, gan adlewyrchu dylanwad mawr Gwasanaeth y Rhyfel (1939 hyd 1948) a Gwasanaeth Milwrol (1939 hyd 1960). Fodd bynnag, mae hefyd yn dangos bod cyfran gynyddol o'n cyn-filwyr o oedran gweithio (mae 43% o boblogaeth y cyn-filwyr bellach o dan 65 oed).

At hynny, mae'r wybodaeth o Gyfrifiad 2021 yn awgrymu bod cysylltiad rhwng poblogaeth y cyn-filwyr a iechyd gwael. Roedd cyn-filwyr wedi nodi eu bod mewn iechyd gwaeth o gymharu â'r boblogaeth na fu'n gwasanaethu. Y gyfran fwyaf a nododd nad oeddent 'mewn iechyd da' oedd y rhai a oedd wedi gwasanaethu o'r blaen yn y lluoedd arfog rheolaidd yn ogystal â'r rhai wrth gefn. At hynny, mae'n llawer mwy cyffredin i gyn-filwr sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog rheolaidd neu wrth gefn, neu'r naill lu a'r llall, fod yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb o gymharu â'r rheiny nad ydynt wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog o'r blaen. Er nad yw'r wybodaeth hon yn syndod, mae'n bwysig ac yn tynnu sylw at yr angen am wasanaeth atal gwell ac ymyrraeth gynnar i leihau'r canlyniadau gwael hyn rhag iddynt barhau ymhlith y grŵp hwn o'r boblogaeth yn y dyfodol.

[17] SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – TS071 Bu'n gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn flaenorol. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2088&geog=ladu2021

Peth da, er hynny, yw bod mwyafrif y cyn-filwyr yn berchen ar eu cartref - dyna'r math mwyaf cyffredin o ddeiliadaeth. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y rhan fwyaf o gyn-filwyr yn hŷn ac felly wedi cael mwy o gyfle i fynd ar yr ysgol dai.

Bydd y data a'r cipolwg hwn yn helpu i sicrhau bod yr awdurdod lleol, ynghyd â darparwyr gwasanaethau eraill ac elusennau, yn gallu parhau i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib i gyn-filwyr a'u teuluoedd man lle mae ei angen fwyaf.

## Rhestr o Ffigurau:

Ffigur 1: Canran o'r poblogaeth 16 mlwydd oed a throsodd sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU yn flaenorol.
Ffigur 2: Canran o'r pobl sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU yn flaenorol, yn ôl Awdurdodau Lleol Cymru.
Ffigur 3: Canran o cyn-filwyr yn ôl fyddin ar draws Cymru.
Ffigur 4: Canran o'r cyn-filwyr yng Ngheredigion sydd wedi gwasanaethu yn y gwasanaeth lluoedd arfog rheolaidd, wrth gefn neu'r ddau.
Ffigur 5: Canran o cyn-filwyr y lluoedd Arfog sydd yn byw mewn aelwydydd neu sefydliadau cymunedol.
Ffigur 6: Canran yr aelwydydd gyda o leiaf un person sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU yn flaenorol.
Ffigur 7: Strwythur rhywedd ac oedran cyn-filwyr a'r rhai sydd ddim yn gyn-filwyr yng Ngheredigion (2021).
Ffigur 8: Canran o'r cyn-filwyr yng Ngheredigion yn ôl grwp oedran sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog rheolaidd, wrth gefn neu'r ddau.
Ffigur 9: Iechyd cyffredinol hunan-gofnodedig cyn-filwyr a phobl nad ydynt yn gyn-filwyr yng Ngheredigion (2021).
Ffigur 10: Canran o cyn-filwyr y Lluoedd Arfog yn ôl Daliadaeth.
Ffigur 11: Statws Economaidd Cyn-filwyr – Ceredigion.
Ffigur 12: Canran o Cyn-filwyr yn ôl Ward Etholiadol.
Ffigur 13: Canran o cyn-filwyr y Lluoedd Arfog yn ôl AGEHG.

## Rhestr o Dablau:

Tabl 1: Prif 3 Galwedigaeth i cyn-filwyr yn ôl Fyddin.
Tabl 2: Canran o'r pobl yn aelwydydd sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU yn flaenorol.

## Rhestr o Gyfeirnodau:

SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – Nifer y bobl yn y cartref sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol yn lluoedd arfog y DU. Ar gael yn:
https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2089&geog=ladu2021

SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – RM142 Aelwydydd cyn-filwyr yn ôl deiliadaeth. Ar gael yn:
https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2242&geog=ladu2021

SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – RM143 Cyn-filwyr yn ôl anabledd. Ar gael yn:
https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2243&geog=ladu2021

SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – RM144 Cyn-filwyr yn ôl statws gweithgaredd economaidd. Ar gael yn:
https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2244&geog=ladu2021

SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – RM145 Cyn-filwyr yn ôl iechyd cyffredinol. Ar gael yn:
https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2245&geog=ladu2021

SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – RM147 Cyn-filwyr yn ôl oedran. Ar gael yn:
https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2247&geog=ladu2021

SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – TS071 Bu'n gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn flaenorol. Ar gael yn:
https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2088&geog=ladu2021

SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – TS072 Nifer y bobl yn y cartref sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol yn lluoedd arfog y DU. Ar gael yn:
https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2089&geog=ladu2021

SYG (2022). Cyfrifiad 2021 – TS073 Poblogaeth sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol yn lluoedd arfog y DU mewn sefydliadau cymunedol ac mewn cartrefi. Ar gael yn:
https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2090&geog=ladu2021

SYG (2022). Cyfrifiad 2021 -RM146 Cyn-filwyr yn ôl galwedigaeth. Ar gael yn:
https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2246&geog=ladu2021

SYG (2023). Nodweddion cyn-filwyr lluoedd arfog y DU, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021. Ar gael yn:
Characteristics of UK armed forces veterans, England and Wales - Office for National Statistics (ons.gov.uk)